# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-04-08)

**Dyddiad:19 Chwefror 2008**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC106 - Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 28 Ionawr 2008. Fe’u gosodwyd ar 30 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 16 Mawrth 2008.
Mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi cyrff llywodraethu ysgolion i ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd ac, os ydynt yn dymuno, i ddirprwyo arfer eu swyddogaethau i un cyd-bwyllgor neu fwy. **SLC107 – Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006(Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 28 Ionawr 2008. Fe’u gosodwyd ar 30 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.
Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y cynnwys sy'n ofynnol ar gyfer asesiadau awdurdodau lleol o ofal plant yn ei ardal. **SLC109 - Gorchymyn yr Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 30 Ionawr 2008. Fe’i gosodwyd ar 1 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 29 Chwefror 2008.
Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i baratoi cynllun perfformiad gwerth gorau (a elwir “cynllun gwella” yn y Gorchymyn hwn) ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae’r Gorchymyn hwn yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae’n rhaid cyhoeddi cynllun gwella awdurdod tân ac achub ar gyfer blwyddyn ariannol ac erbyn pa ddyddiad y mae copïau o adroddiad archwilydd ynglyn â’r cynllun i gael eu hanfon at yr awdurdod, at Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac os yw hynny’n ofynnol, at Weinidogion Cymru. **SLC110 - Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 2 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 5 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 1 Medi 2008.
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 drwy wneud newidiadau i nifer o'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn ennill statws athrawon cymwysedig yng Nghymru. **SLC111 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 3 Chwefror 2008. Fe’u gosodwyd ar 5 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 29 Chwefror 2008.
- yn darparu ar gyfer cyfradd y cydnabyddiaethau ariannol a fydd yn gymwys at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (na all cyflogeion sy’n dal swyddi yn cynnwys dyletswyddau o natur wleidyddol sensitif ddod yn aelod o awdurdod lleol arall na pharhau i fod yn aelod o’r fath nac ychwaith sefyll i gael eu hethol fel Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop, Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Senedd yr Alban). **SLC112 - Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeistref Sirol Wrecsam) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’i gwnaed ar 5 Chwefror 2008. Fe’i gosodwyd ar 6 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 1 Mawrth 2008.
Effaith y Gorchymyn hwn yw dynodi'n ardal barcio a ganiateir ac yn ardal barcio arbennig y cyfan o fwrdeistref sirol Wrecsam heblaw am ddarnau o gefnffyrdd o fewn y fwrdeistref. **Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2 Eitem 3.1: Offerynnau sy’n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) SLC105 - Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 23 Ionawr 2008. Fe’u gosodwyd ar 24 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.
Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch rheolaeth cyrff llywodraethu ar feddiannu a defnyddio mangreoedd ysgol.
**SLC108 - Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Darparu Gwybodaeth) (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe’u gwnaed ar 28 Ionawr 2008. Fe’u gosodwyd ar 30 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.
Mae’r rheoliadau hyn yn gosod allan y mathau o wybodaeth y mae’n ofynnol eu darparu i rieni a darpar rieni gan yr awdurdodau lleol o dan eu dyletswyddau yn rhan 27 o Ddeddf Gofal Plant 2006.

### Eitem 4: Unrhyw fater arall

### Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf